

Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC74: Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol CDLIN

Cynllun i'w archwilio  
gan y cyhoedd

Rhagfyr 2025



**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: [www.conwy.gov.uk/cdlln](http://www.conwy.gov.uk/cdlln) Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

1. Cyflwyniad .....	3
2. Dulliau ymgysylltu yn ystod cyfnod Cyn-i'w archwilio gan y cyhoedd'r CDLI Newydd .....	3
3. Cyfnod Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd – y prif faterion a godwyd.....	6
4. Mynd i'r afael â'r materion allweddol o'r cam cyn archwilio gan y cyhoedd i lywio'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd .....	7
Atodiad 1 – Rhestr o'r cyrff yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod cam cyn archwilio gan y cyhoedd y CDLI:.....	15
Atodiad 2 - Hierarchaeth Llywodraethu'r CDLIN .....	19
Atodiad 3 – Tudalennau gwe yn manylu ar yr ymgynghoriad cyn archwilio gan y cyhoedd a'r Strategaeth a Ffefrir .....	20
Atodiad 4 – Adroddiad Sylwadau ar Safleoedd Ymgeisiol (gweler atodiad ar wahân ar y wefan) .....	22
Atodiad 5 – Adroddiad Sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir(gweler atodiad ar wahân ar y wefan) .....	22
Atodiad 6 – Tudalennau gwe yn manylu ar y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd i helpu i lunio polisiâu'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.....	23
Atodiad 7 – Adroddiad proses ar gyfer y digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus ar safleoedd allweddol (gweler atodiad ar wahân ar y wefan) .....	24
Atodiad 8 – Adroddiad ar y sylwadau o'r digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus ar safleoedd allweddol (gweler atodiad ar wahân ar y wefan) .....	24

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ar gyfer y cyfnod 2018 i 2033 ar gyfer Sir Conwy (heb gynnwys y rhan sydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri).

1.2 Mae'r CDLIN yn ddogfen bolisi allweddol gan y Cyngor sy'n dyrannu tir ar gyfer datblygu, yn dynodi ardaloedd i'w diogelu ac yn cynnwys polisiau y bydd ceisiadau cynllunio yn y dyfodol yn cael eu hasesu yn eu herbyn. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLIN yn disodli'r CDLI mabwysiedig presennol fel y cynllun datblygu defnydd tir statudol ar gyfer y Sir.

1.3 Yn unol â rheoliadau'r CDLI, mae angen adroddiad ymgynghori cychwynnol i fynd i'r afael â phedwar prif fater:

- 1 Nodwch pa gyrff sydd wedi cael eu hymgynghori/eu cynnwys yn y broses CDLIN
- 2 Crynowch y prif faterion a godwyd, a'r ymatebion a dderbyniwyd
- 3 Mewn perthynas â'r CDLIN i'w archwilio gan y cyhoedd, dangoswch sut yr aethpwyd i'r afael â'r prif faterion a'r ymatebion iddynt.
- 4 Nodwch gyfanswm y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir

1.4 Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r cyngor dynnu sylw at unrhyw wriad o'r cynllun ymgysylltu â'r gymuned (CIS).

Dyma strwythur yr adroddiad hwn:

**Adran 2** Mae'r adran hon yn nodi'r dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod cyn archwilio gan y cyhoedd yn unol â'r CIS

**Adran 3** Mae'n nodi crynodebau o'r materion allweddol a godwyd mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ac ymgynghoriad ar safleoedd ymgeisiol. Mae'r rhain yn bennaf ar ffurf adroddiadau cynrychiolaeth y gellir eu gweld yn atodiadau'r adroddiad hwn

**Adran 4** Yn dangos sut y mae'r materion allweddol wedi cael eu datrys o ran paratoi'r cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd.

## 2. Dulliau ymgysylltu yn ystod cyfnod Cyn-i'w archwilio gan y cyhoedd'r CDLI Newydd

### 2.1 Cytundeb Cyflawni

2.1.1 Yn dilyn cyfnod ymgynghori o bythefnos gyda Chyrff Statudol, cyflwynwyd y Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ar 30 Ebrill 2018 a'i gymeradwyo ar 9 Mai 2018. Yn ddiweddar (Tachwedd 2025) mae wedi'i ddiwygio a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## **2.2 Ymgynghoriad cyn y cyfnod i'w archwilio gan y cyhoedd**

2.2.1 Mae'r broses ymgynghori a gynhaliwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy wedi cynnwys elfennau ymgynghori statudol yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn ogystal ag ymgysylltu anstatudol, gan ganolbwyntio ar geisio barn ar ddatblygiad y strategaeth a ffeirir hyd at y cyfnod i'w archwilio gan y cyhoedd. Mae'r broses wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion rheoleiddio gofynnol, yn enwedig mewn perthynas â'r digwyddiadau ymgysylltu cymunedol ychwanegol a gynhaliwyd yn dilyn ymgynghori ar y Strategaeth a ffeirir. Mae'r ymgynghoriad ychwanegol hwn wedi llunio cynnwys polisïau i'w archwilio gan y cyhoedd yn uniongyrchol - bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach yn adrannau 3 a 4 o'r adroddiad hwn.

## **2.3 Ymgynghori a Chysylltu Strategol**

2.3.1 Mae CBS Conwy wedi ymdrechu i gynnwys sefydliadau ac unigolion allweddol o'r cychwyn cyntaf gyda'r broses yn dechrau yn 2018. Am restr o'r cyrff yr ymgynghorwyd â nhw yn y cyfnod cyn-i'w archwilio gan y cyhoedd, gweler Atodiad 1.

2.3.2 Roedd y broses hefyd yn cynnwys ymgysylltu parhaus â grwpiau budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys:

- Grŵp Tasg a Gorffen CDLI yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac yn fwy diweddar y Grŵp Cynllunio Strategol, Grwpiau Aelodau'r Cyngor Sir yn cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol,
- Swyddogion y Cyngor Sir a
- Budd-ddeiliaid lleol allweddol gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos – am y rhestr lawn gweler Atodiad 1
- Cynhaliwyd gweithdai, sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau rheolaidd hefyd i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynnig drwy gydol y broses ar gyfer syniadau a sylwadau.
- Er mwyn egluro, cyfeiriodd y CIS at 'Grwpiau Ffocws' a chyfranogiad partïon â diddordeb yn y rhain. Ni ddefnyddiwyd y term 'Grwpiau Ffocws' yn ystod yr ymgynghoriad. Yn lle hynny, cynhaliwyd digwyddiadau galw heibio ar gyfer yr ymgynghoriad lle gwahoddwyd pob plaid a restrir yn y CIS i fynychu. Ffurfiwyd gweithgorau meysydd pwnc penodol hefyd yn cynnwys budd-ddeiliaid allweddol, yn dibynnu ar y maes pwnc dan sylw. Gweler Atodiad 2 - Hierarchaeth llywodraethu am fanylion pellach.
- CDLI Newydd - Sesiynau Galw Heibio i Gynghorwyr - Safleoedd Arfaethedig
  - 1 Mai 2024 13:00-17:00
  - 2 Mai 2024 10:00-14:00

## 2.4 Ymgynghoriad a Chysylltiad Cyhoeddus

2.4.1 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad â phartneriaid Strategol, mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol ac ymgysylltu anstatudol.

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir rhwng 29 Gorffennaf 2019 a 20 Medi 2019 a chynhaliwyd gwaith ymgysylltu Safleoedd Strategol rhwng Tachwedd 2023 ac Ionawr 2024, cynhaliwyd y ddau ymarfer mewn amrywiol safleoedd ledled y sir gyda'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn digwydd mewn llyfrgelloedd ac ymgysylltu penodol i safleoedd mewn lleoliadau ger y safle dan sylw.

2.4.2 Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, rhannodd y Cyngor y Strategaeth a Ffefrir ei hun ynghyd â dogfen/cyflwyniad cryno, fideo byr ac amrywiol wybodaeth ychwanegol. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd derbyn mewnbyn lleol wrth ddatblygu'r CDLIN a sefydlu cefnogaeth i'r weledigaeth. Dewiswyd lleoliadau ym mhob ardal yn benodol gan ystyried lleoliad i'r safle arfaethedig, hygrychedd, capasiti ac argaeledd. Mewn ardaloedd lle gofynnwyd am fwy o sesiynau, neu amseroedd amgen, ychwanegwyd sesiynau ychwanegol.

2.4.3 Hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir trwy amrywiol sianeli ar-lein a'i hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, sianeli cyfathrebu a thrwy hysbysiadau mewn llyfrgelloedd lleol.

2.4.4 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhestr o ddogfennau a oedd ar gael ar wahanol adegau yn ystod cyfnod cyn archwilio gan y cyhoedd y CDLIN:

**Ffigur 1 – Digwyddiadau Ymgynghori/Ymgysylltu Cyfnod Cyn Archwilio gan y cyhoedd y CDLIN**

Dogfen Ymgynghori/Cyhoeddi	Dyddiadau Ymgynghori/Cyhoeddi
Cytundeb Cyflawni	Cyhoeddiad cychwynnol 9 Mai 2018 Diwygiwyd Rhagfyr 2025
Safleoedd ymgeisiol (gwahoddiadau i gyflwyno)	Gwahoddiadau i gyflwyno safleoedd ymgeisiol – Gorffennaf-Awst 2018
Papurau ymgynghori cyfnod cyn archwilio gan y cyhoedd	17 Rhagfyr 2018 – 25 Ionawr 2019 (gweler Atodiad 3)
Papurau pwnc cyfnod cyn archwilio gan y cyhoedd	17 Rhagfyr 2018 – 25 Ionawr 2019
Papurau cefndir Sylfaen Tystiolaeth y CDLI:	29 Gorffennaf 2019 – 20 Medi 2019
Strategaeth a Ffefrir	29 Gorffennaf 2019 – 20 Medi 2019 (gweler Atodiad 3)
Crynodeb Strategaeth a Ffefrir	29 Gorffennaf 2019 - 20 Medi 2019
Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol (map)	Sylwadau ar safleoedd ymgeisiol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019. (Gweler Atodiad 4)

Adroddiad sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir	Tachwedd 2019. (Gweler Atodiad 5)
Safleoedd tai fforddiadwy 50%	Gwahoddiadau i gyflwyno 5 Awst 2022 - 30 Medi 2022.
Ymgysylltu â chreu lleoedd o fewn y gymuned ar safleoedd allweddol y CDLIN	Amrywiol ddyddiadau ar-lein ac yn bersonol rhwng 9 Tachwedd 2023 a 23 Ionawr 2024 (gweler Atodiad 6)
Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol (Sylwadau)	Yn ystod y cyfnod i'w archwilio gan y cyhoedd

### 3. Cyfnod Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd – y prif faterion a godwyd

3.1 Cafwyd cyfanswm o 1320 o sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir. Yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer sylwadau, cynhyrchwyd adroddiadau Sylwadau cynhwysfawr a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys ymateb arfaethedig y Cyngor i bob mater a godwyd. Gweler Atodiadau 3 a 4 i weld yr adroddiadau hyn. Yn dilyn dadansoddiad gan ddefnyddio'r feddalwedd ymgynghori, thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad oedd pryder ynghylch pob un o'r dyraniadau safleoedd mawr. Rhestrir y safleoedd fel a ganlyn:

- Safle 157 Caeffynnon, Llanfairfechan - safle tai ac addysg defnydd cymysg
- Safle 91, safle tai Pentwyn Road, Deganwy / Llanrhos
- Safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn
- Safle 56, safle tai Penloyn, Llanrwst
- Safleoedd 118,119,120 De-ddwyrain Abergele
- Safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas\*

3.2 Oherwydd hyn, ac fel y soniwyd eisoes yn adran 2 o'r adroddiad hwn, comisiynodd Cyngor Conwy Cymorth Cynllunio Cymru (PAW) ym mis Medi 2023 i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu cymunedol anstatudol ar 5 safle allweddol yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy. Mae Atodiad 6 yn darparu gwybodaeth benodol am leoliad ac amseriad y digwyddiadau hyn. \*Sylwch, er bod Safle 115 Chwarel Llanddulas wedi ymddangos ar y gofrestr safleoedd ymgeisiol yn 2019, nad oedd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir. Mae hyn oherwydd bod yr angen wedi codi i ddisodli safle cyflogaeth (De-ddwyrain Abergele) yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth a Ffefrir, ac ar y pryd cyflwynwyd cynigion addas ar gyfer cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy i'r Cyngor gan berchennog tir y chwarel. O ystyried maint ac arwyddocâd lleol y safle, ystyriwyd y dylid datblygu ymgysylltu â'r cyhoedd yn y cam cyn archwilio gan y cyhoedd i lywio datblygiad polisi yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

3.3 Mynychwyd y digwyddiadau ymgysylltu cymunedol yn dda, a gwnaed nifer o bwyntiau mewn perthynas â datblygiad safleoedd arfaethedig y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Gweler Atodiad 7 am yr Adroddiad Proses sy'n manylu ar drefniadaeth a phresenoldeb y digwyddiadau, ac Atodiad 8 am yr adroddiad ar y materion a godwyd mewn perthynas â phob un o'r safleoedd allweddol.

## 4. Mynd i'r afael â'r materion allweddol o'r cam cyn archwilio gan y cyhoedd i lywio'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd

4.1 Yn dilyn y digwyddiadau hyn, adolygodd swyddogion cynllunio'r sylwadau a'r adborth gan y gymuned a lle'r oeddent yn gysylltiedig â rhesymau cynllunio, defnyddiwyd y wybodaeth hon i lywio pob polisi creu lleoedd yn uniongyrchol yn ymwneud â'r safleoedd allweddol hynny. Gweler y polisiau creu lleoedd manwl yn y datganiad ysgrifenedig am restr o faterion i'w hystyried yng nghyfnod y cais cynllunio.

Dyma'r rhestr o bolisiau:

PL/17 safle 157 Caeffynnon, Llanfairfechan - safle tai ac addysg defnydd cymysg

PL/18 safle 91, safle tai Pentwyn Road, Deganwy / Llanrhos

PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn

PL/20 safle 56, safle tai Penloyn, Llanrwst

PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas

4.2 Fel enghraifft o sut y codwyd pryderon / materion a'u trosi'n bolisi cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd, mae'r materion a godwyd yn nigwyddiad chwarel Llanddulas wedi'u crynhoi isod gyda'r sylwadau mewn coch yn ymateb y Cyngor. Cynhaliwyd y broses hon ar gyfer pob un o'r safleoedd a restrir uchod.

### 4.3 Materion a godwyd yn Nigwyddiadau Cymorth Cynllunio Cymru – Chwarel Llanddulas

**Pryder – Rheswm Cynllunio posibl**(rydym eisoes wedi delio â rhai o'r rhain/eu cydnabod drwy'r broses ymgynghorol statudol).

- Angen arolwg ecolegol – adar yn nythu ar y safle a daearau moch daear  
Mae gwaith ecolegol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd mewn trafodaeth gydag Ecolegydd CBSC



- Adleoli'r WTS – yn achosi symudiadau lorïau newydd. Ni ragwelir unrhyw symudiadau lorïau newydd. Dim ond i'r rhwydwaith ffyrdd presennol o fewn cyfadeilad y chwarel y bydd lorïau'n cael eu hailgyfeirio.
- Sŵn wedi'i chwyddo yn Ardal 4? Annhebygol y bydd yn wahanol i'r lleoliad presennol sydd hefyd wedi'i leoli o fewn gwagle chwarel. Mae Ardal 4 ymhellach i ffwrdd o dderbynyddion sensitif na lleoliad presennol y WTS yn Ardal 2.
- Llŵch, llygredd, arogleuon o'r WTS. Annhebygol y bydd yn wahanol i'r lleoliad presennol sydd hefyd wedi'i leoli o fewn gwagle chwarel. Mae Ardal 4 ymhellach i ffwrdd o dderbynyddion sensitif na lleoliad presennol y WTS yn Ardal 2.
- Gallai adleoli i ardal 4 achosi mwy o effaith amgylcheddol i drigolion (llŵch, arogl sŵn). Annhebygol y bydd yn wahanol i'r lleoliad presennol sydd hefyd wedi'i leoli o fewn gwagle chwarel. Mae Ardal 4 ymhellach i ffwrdd o dderbynyddion sensitif na lleoliad presennol y WTS yn Ardal 2.
- Bydd Ffordd Pentregwyddel yn cael ei chau gan ei bod yn gwbl anaddas. Ni fydd Ffordd Pentregwyddel yn cael ei defnyddio i gael mynediad i'r safle(oedd).
- Agosrwydd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig/Asedau Treftadaeth. Nid ydym wedi derbyn unrhyw wrthwynebiadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru/Cadw ynghylch yr effaith ar ddynodiadau natur/treftadaeth.
- Colli bywyd gwyllt natur (amodau adfer). Bydd effaith gyffredinol y datblygiad yn enillion net o fioamrywiaeth, gydag unrhyw golledion yn cael eu gwrthbwysu ar dir gerllaw, ac i'r de o'r chwarel.
- Byddai'n well rhannu'r safle yn setiau llai o ddefnyddiau gan gynnwys unedau cychwyn ac ardaloedd wedi'u cadw ar gyfer natur. Dyma sy'n cael ei gynllunio. Mae rhai ardaloedd o'r safle, h.y. Ardal 1, yn addas ar gyfer unedau llai ar gyfer busnesau newydd ac ati, bydd ardaloedd eraill yn fwy addas ar gyfer safleoedd cyflogaeth mwy. Bydd cynlluniau ar gyfer cadw natur a gwrthbwysu hefyd yn cyd-fynd â'r cynigion i wella a diogelu cynefinoedd ar dir o amgylch y chwarel.
- Effaith ar wasanaethau lleol. Gan fod y cynnig ar gyfer defnydd cyflogaeth ac nid tai, mae'n annhebygol y bydd effaith negyddol ar wasanaethau lleol fel meddygfeydd teulu, ysgolion ac ati. Mae'n debygol y bydd yr effaith yn gadarnhaol o ran defnydd cynyddol o siopau/busnesau lleol a fydd o fudd i'r economi leol.
- Ardaloedd cyflogaeth presennol yng Nghonwy heb eu defnyddio'n ddigonol – a oes angen? Oes, mae angen wedi'i brofi fel y nodir yn Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy.
- Safle drud i gyflawni defnyddiau dosbarth B – hyfywedd? Mae FCC (perchnogion y tir) wedi dangos y gall hyn fod yn hyfyw oherwydd eu mynediad at agregau i adeiladu'r llwyfannau datblygu angenrheidiol.
- Statws y dyraniad – strategol v anstrategol – mae CBSC yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng safleoedd strategol ac anstrategol ac mae'n dilyn cyngor gan Lywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr y CDLI ynghylch sut mae'r rhain yn cael eu dwyn ymlaen o fewn proses y CDLIN.
- A fydd ail bwynt mynediad i'r safle? Na – bydd y mynediad yn parhau drwy'r A547.

- A all llwybrau safonol Teithio Llesol gysylltu â phrif ffyrdd, arosfannau bysiau (canolfannau cludiant) a chysylltu ag Ardaloedd 1-4? Gellir cyflawni cysylltiadau teithio llesol fel rhan o'r datblygiad a byddant yn cael eu manylu yng nghyfnod y cais cynllunio.
- A fydd angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol ar gyfer y cynnig hwn? - **Bydd Chwarel Llanddulas yn rhan o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) gan mai cynnig CDLI yw hwn ar hyn o bryd yn hytrach na chais cynllunio.**

## **Pryder – Rheswm nad yw'n ymwneud â chynllunio**

- Mae angen gwella cludiant cyhoeddus (yn gyffredinol) **Ystyrir bod cysylltiadau cludiant cyhoeddus i'r safle yn dda, gyda bysiau rheolaidd (12, 13 a 12X) yn croesi'r A547 ac yn stopio o fewn ychydig fetrau i fynedfa'r safle.**
- Ceblau trydanol - effaith cysylltiad Iwerddon/Cymru ar y safle **Ni fydd unrhyw effaith o hyn ar ddatblygiad safle chwarel Llanddulas.**
- Pryderon y bydd mwy o weithgarwch tirlenwi **Nid yw hyn yn rhan o'r cynigion. Daeth tirlenwi gweithredol i ben ym mis Tachwedd 2023 gyda chyfnod adfer yn parhau am y 3-4 blynedd nesaf.**
- Colli cymeriad y safle (yn gyffredinol) **Mae hwn yn ystyriaeth lle mae effeithiau niweidiol ar ddynodiadau, fodd bynnag ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau ynghylch dynodiadau hyd yn hyn.**
- A yw ffermydd solar yn cynhyrchu ymbelydredd niweidiol? **Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, nid oes tystiolaeth bod datblygiadau o'r fath yn niweidiol i iechyd pobl.**
- Safle'n cael ei drosglwyddo i'r gymuned ar ôl ei adfer / trwydded tirlenwi tua 40 mlynedd yn ôl – **Mae'r gofynion fel rhan o gamau adfer y chwarel a'r safle tirlenwi wedi cael eu cyflawni, ac yn parhau i gael eu cyflawni. Mae'r chwarel mewn perchnogaeth breifat ac mae'r safleoedd wedi'u cyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried ar gyfer cyflogaeth / datblygiad ynni solar sy'n rhan o broses y CDLIN sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd.**
- Potensial ar gyfer mwy o dai oherwydd y datblygiad hwn (sgil-effaith). **Nid oes unrhyw ddyraniadau tai wedi'u cynllunio ar gyfer Llanddulas na Llysofaen o fewn y CDLIN, fodd bynnag, bydd hap-safleoedd ar gyfer tai yn cael eu trin yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a pholisïau Cenedlaethol / CDLIN perthnasol.**
- Di-brisio eiddo. **Mae cynnydd/gostyngiad mewn prisiau tai yn dibynnu ar lawer o ffactorau gwahanol ac maent y tu allan i gwmpas ystyriaethau cynllunio gofodol.**
- Dirywiad ffyrdd **Mae hwn yn fater i briffyrdd, fodd bynnag, dylid nodi y bydd gan y CDLI bolisïau i sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol y datblygiad ar briffyrdd yn cael eu lliniaru, fodd bynnag nid yw hyn yn ymestyn i drwsio problemau sydd eisoes yn bodoli cyn y datblygiad.**

- Presenoldeb nwy Radon - Nid yw hyn yn atal dyrannu'r safle yn y CDLIN. Os effeithir ar y safle, gellir rhoi mesurau lliniaru ar waith fel sy'n ofynnol gan reoliadau adeiladu.
- Cytundebau ar waith rhwng Cyngor Mynydda Prydain a thirfeddianwyr i ddringo rhai wynebau creigiau. Ar ôl gwirio gyda pherchnogion tir chwarel Llanddulas, nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw gytundebau o'r fath mewn grym.

### Syniadau / dyheadau cymunedol ar gyfer y safle

- Teimlo bod y gymuned wedi dioddef oherwydd tirlenwi yn y gorffennol – unrhyw fuddion o'r cynigion presennol? Oes, gellir trawsnewid yr hyn sydd ar hyn o bryd yn safle tir llwyd mawr (sef yn bennaf segur) yn dir cyflogaeth defnyddiadwy a fydd o fudd i'r economi leol, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a lleihau'r angen i gymudo. Bydd yna hefyd enillion net bioamrywiaeth fel rhan o'r cynnig trwy gadw tir o amgylch y chwarel a gwella cynefinoedd.
- Fferm solar – a fydd manteision i'r gymuned? Y bwriad yw y bydd y fferm solar yn pweru'r safleoedd cyflogaeth newydd ac yn gwrthbwysu gofynion ynni'r datblygiad gyda'r nod o gyflawni Sero Net.
- Pympiâu gwres o'r ddaear i fod o fudd i'r gymuned leol. Nid oes unrhyw gynlluniau i osod pympiâu gwres o'r ddaear, ond bydd ynni'r haul yn cael ei ddefnyddio i wrthbwysu gofynion ynni'r datblygiad gyda'r nod o gyflawni Sero Net ar y safleoedd cyflogaeth arfaethedig.
- Ystyried parthau clustogi o amgylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus Edrychir ar hyn fel rhan o gais cynllunio yn y dyfodol.
- Cefnogir dyraniad diwydiant ym mharth 2, yn rhannol ym 3 (parth agosaf at 2) Nodwyd.
- Dylid lleoli diwydiant an-ddwys (diwydiannau â thraffig ysgafn / nid diwydiannau llafur-ddwys) yn Ardal 4. Awgrymir Ardal 4 fel safle i'r WTS adleoli iddo o'u lleoliad presennol yn Ardal 2. Bydd symudiadau traffig yr un fath ag y maent ar hyn o bryd ar gyfer Ardal 2. Fel arall, nid oes unrhyw ddiwydiannau pellach yn cael eu cynllunio yn yr ardal hon. Unwaith y bydd yn weithredol, ni fydd datblygiad solar yn denu symudiadau cerbydau sylweddol o weithgareddau, dim ond y rhai sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw parhaus.
- Zip World yn Ardal 3/defnyddio'r lagŵn at ddibenion hamdden Ni fyddai'n ymarferol nac yn ddymunol defnyddio'r lagŵn at ddibenion hamdden oherwydd presenoldeb silt, dyfnder a hyfywedd cyffredinol.
- Rhandiroedd. Nid yw safle'r chwarel yn safle delfrydol ar gyfer rhandiroedd am resymau lleoliad o fewn gwagle chwarel, amwynder, hyfywedd a mynediad cyhoeddus. Darperir rhandiroedd mewn mannau eraill mewn lleoliadau mwy addas trwy'r CDLI Newydd.
- Potensial dringo (Cyngor Mynydda Prydain)

Ni fydd hyn yn ymarferol / hyfyw – y cynnig yw dyrannu'r tir ar gyfer cyflogaeth sydd yn angen a nodwyd yn sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

- Ni ddylid dyrannu Ardal 4 – dylid parhau â'r gwaith adfer  
Mae'n bosibl na fydd y safle'n cael ei ddyrannu gan y gallai'r WTS adleoli trwy gyflwyno cais cynllunio. Bydd adfer y tir sy'n weddill yn Ardal 4 yn parhau yn unol â'r amodau adfer.
- Gwella/darparu llwybrau troed cyhoeddus. Mae hyn yn cael ei ymchwilio ar hyn o bryd a byddai'n rhan o gais cynllunio ar ôl mabwysiadu'r CDLIN.
- Adran 106 i ddarparu buddion cymunedol. Ceisir cytundebau Adran 106 yn unol â pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac yn unol â rheoliadau CIL.
- Cyfleusterau / cynlluniau hanes a threftadaeth i ddathlu'r ardal  
Bydd dyrannu Ardal 1 yn galluogi dealltwriaeth ddyfnach a chadwraeth o odyrnau calch hanesyddol pwysig yn genedlaethol sydd ar hyn o bryd wedi'u gorchuddio gan lystyfiant ar Ardal 1.  
Hamdden – parcdir, pysgota, plymio/chwaraeon dŵr Ni fydd hyn yn ymarferol / hyfyw – y cynnig yw dyrannu'r tir ar gyfer cyflogaeth sydd yn angen a nodwyd yn sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
- Gwell cyfleusterau cymunedol yn Llysfaen / Llanddulas. Ceisir Cytundebau Adran 106 yn unol â pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac yn unol â rheoliadau ASC.
- Ffensys ffin gwell. Edrychir ar hyn fel rhan o gais cynllunio yn y dyfodol.

4.4 Gan ddefnyddio'r uchod, ynghyd â sylwadau a dderbyniwyd gan ymgngoreion statudol, cynhyrchwyd y polisi creu lleoedd canlynol:

#### PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas

- Mae Chwarel Llanddulas yn cynnwys pedwar safle sydd wedi'u dyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth a chynhyrchu ynni adnewyddadwy (solar) cysylltiedig. Mae'r dadansoddiad o'r defnydd tir arfaethedig fel a ganlyn:
- Ardal 1 – 0.8ha B1, B2, B8
- Ardal 2 – 4ha B1, B2, B8
- Ardal 3 – 4ha B1, B2, B8
- Ardal 4 – 18ha ar gyfer ynni adnewyddadwy (solar)
- Bydd cyflwyno ardaloedd 1 i 3 fesul cam yn unol â pholisi ED/2. Ni fydd gwaith datblygu Ardal 4 yn dechrau nes y bydd adeiladau wedi'u hadeiladu ar Ardaloedd 1, 2 a 3 i gefnogi gofynion ynni y safleoedd hyn, neu'n gynharach, pe bai cyswllt â'r grid cenedlaethol yn ddichonadwy. Bydd llwyddiant y dyraniad solar yn dibynnu ar ei hyfywedd parhaus mewn perthynas â'r datblygiad ar Ardaloedd 1, 2 a 3, ac felly mae'n amodol ar amrywioldeb o ran cyflwyno fesul cam.
- Mae'n rhaid i gynigion fodloni'r holl ofynion canlynol o ran creu lleoedd ac isadeiledd:
- Priffyrdd a Theithio Llesol – Dylid dilyn yr hierarchaeth cludiant cynaliadwy ar gyfer y dyluniad. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud gwaith i wella'r

mynediad o'r A547 i Ardal 1 oherwydd cyfuniad o gyfyngiadau ffisegol presennol a hawliau tramwy preifat ar y mynediad presennol. Felly mae'n debygol y bydd angen gwelliannau i leiniau gweledd. Ar y cam cais cynllunio, mae angen asesiadau capasiti ar gyfer cyffyrdd 22 a 23 yr A55. Yn ogystal, mae angen Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle, a hefyd manylion am gysylltiadau teithio llesol yn unol â pholisi STA/6.

- Dyluniad a gosodiad – caiff dyluniad yr isadeiledd ffisegol a'r adeiladau ei arwain gan bolisiau PL/1, PL/5 a PL/11, gan ystyried hygyrchedd, diogelwch a hydreddedd y safle. Bydd angen ystyriaeth benodol ar gyfer hyn pan fo cyflwyno fesul cam yn digwydd yn y safleoedd unigol, a'r dull fesul cam cyffredinol ar draws y safleoedd.
- Llwybrau a ffiniau – dylid ystyried yr angen am wella/darparu llwybrau cyhoeddus a ffensys ffiniau yn unol â pholisi STA/6 ac yn unol â'r adroddiad ymgysylltu â'r gymuned.
- Isadeiledd Gwyrdd – sicrhau bod nodweddion gwyrdd a glas yn cael eu cadw a'u hintegreiddio â chreu cynefinoedd, plannu coed brodorol yn unol â NE/6, a chynnwys a chysylltu darpariaeth mannau agored lle bo'n briodol, yn unol â pholisi NE/7. Mae'r gofyniad hwn yn eithrio'r pyllau yn Ardal 2 a'r lagŵn yn Ardal 3, a fyddai'n cael eu draenio cyn creu platfform datblygu.
- Gwella bioamrywiaeth – bydd effaith gyffredinol y datblygiad yn arwain at fudd net i fioamrywiaeth, yn unol â'r dull fesul cam a pholisi NE/8. Bydd cynlluniau ar gyfer cadwraeth natur a gwrthbwysu er mwyn gwella a diogelu cynefinoedd ar dir o amgylch y chwarel yn cyd-fynd â'r cynigion hefyd.
- Mesurau llifogydd / dŵr wyneb – bydd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer y safleoedd (Ardal 1 i 4 gan gynnwys yr ardaloedd hynny) yn unol â chanllawiau TAN15, oherwydd bod y safleoedd yn rhannol o fewn Parth Llifogydd 3 ar gyfer dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr bach. Bydd angen i'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ddangos bod y risg llifogydd o dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr bach yn y safleoedd a'r ardal gyfagos yn cael ei rheoli trwy ddefnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy.
- Diogelu dŵr daear – mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i ôl-lenwi anadweithiol o ran effaith ar brif ddyfrhaen. Dylid cyfeirio at ddatganiadau Sefyllfa Gwarchod Dŵr Daear: dull Asiantaeth yr Amgylchedd o ran gwarchod dŵr daear yn ychwanegol at ystyried y rheoliadau dŵr gwastraff.
- Draenio a threiddiad – mae angen gwybodaeth ar y cam cais cynllunio er mwyn sicrhau atal unrhyw fynediad posibl i ddifwynwyr i mewn i'r ddaear yn sgil datblygiad.
- Cyflenwad dŵr a capasiti carthffosiaeth – dim ond pan fydd y math o ddatblygiad a'r deiliad/defnyddiwr safle yn hysbys y gellir deall capasiti carthffosiaeth ar gyfer dyraniadau cyflogaeth. Pan fydd gofynion wedi'u cadarnhau trwy'r broses cais cynllunio, mae'n bosibl y bydd angen cynnal asesiadau pellach neu asesiadau modelu hydrologig er mwyn cefnogi datblygiad ar y safle hwn.

- Offer dŵr presennol – mae prif bibell dŵr a charthffos yn rhedeg ar hyd ffin ddwyreiniol Ardal 1. Lle bo angen, bydd gofyn am hawddfreintiau/mesurau lliniaru yn unol â'r ymgynghoriad â Dŵr Cymru.
- Gosod paneli solar yn Ardal 4 yn unol ag EN/11 – Bydd angen gwybodaeth benodol am leoliad, asesiadau risg ac os oes angen, cynlluniau lliniaru, i gyd-fynd ag unrhyw gais cynllunio o ran sut caiff y paneli solar eu cysylltu â'r ddaear yn Ardal 4, gydag asesiad o'r risg allai'r sylfeini ei pheri i beirianneg tirlenwi / sadrwydd y ddaear. Mae angen ceisio adolygiadau i'r trefniadau adfer cymeradwy yn y cam cais cynllunio.
- Ansawdd Aer – Dylid cynnwys mesurau ansawdd aer boddhaol ar gyfer lliniaru a/neu leihau allyriadau yn unol â pholisi EQ/3.
- Effeithlonrwydd ynni/carbon sero – dylai'r eiddo cyflogaeth yn Ardaloedd 1, 2 a 3 geisio sicrhau allyriadau carbon rheoledig gweithredol Sero Net mewn adeiladau trwy weithredu'r hierarchaeth ynni. Dylai cynigion ddangos bod yr hierarchaeth ynni wedi'i rhoi ar waith drwy gyflwyno Datganiad Ynni yn unol â pholisïau EN/1 ac EN/2.
- Diogelu Asedau Hanesyddol (Odynnau Calch Hoffman yn Ardal 1) – diogelu gweddillion Odynnau Calch Hoffman ac isadeiledd cysylltiedig fel rhan o'r cynigion datblygu ar gyfer Ardal 1. Bydd angen asesiad desg manwl ac arolwg ar droed a mapio ac arolwg adeilad hanesyddol lefel 3 yn y cam cais cynllunio.
- Asesu a diogelu Asedau Hanesyddol (strwythurau carreg hanesyddol yn Ardal 2) – bydd angen asesiad desg manwl ac arolwg ar droed a mapio ac arolwg adeilad hanesyddol lefel 3 yn y cam cais cynllunio er mwyn penderfynu ar raddfa a chyflwr unrhyw asedau hanesyddol sy'n bresennol.
- Y Gymraeg - mae angen i'r cynllun ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg (fel sy'n ofynnol dan bolisi PL/7 a pholisi cynllunio cenedlaethol ar y Gymraeg). Mae mesurau lliniaru'n ofynnol.
- Rheoli Deunyddiau – Bydd angen Cynllun Rheoli Deunyddiau a Gwastraff yn y cam cais cynllunio er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gynnal yn gywir trwy leihau effaith amgylcheddol trwy reoli gwastraff yn gynaliadwy.

Mae llawer o'r rhesymau cynllunio a godwyd yn y digwyddiad cyhoeddus wedi'u cynnwys a'u trafod yn y polisi manwl uchod, yn benodol, pryderon ynghylch ecoleg, priffyrdd, llwybrau troed a ffiniau, cadw isadeiledd gwyrdd ac elfennau hanesyddol y safle. Mae'r uchod yn enghraifft o ble mae ymgynghori ffurfiol a digwyddiadau ymgysylltu cymunedol ychwanegol wedi llywio datblygiad polisïau yn y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd yn uniongyrchol. Cynhaliwyd proses debyg ar gyfer y pedwar safle arall lle codwyd pryderon yng Ngham y Strategaeth a Ffebrir. Gellir gweld canlyniadau'r digwyddiadau ymgysylltu cymunedol yn Atodiad 8 a'u cynnwys ym mholisïau Creu Lleoedd yn y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd.

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn cael ei ailystyried unwaith y bydd ymgynghori ar y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd wedi digwydd a bydd yn cael ei gwblhau ar gyfer y cam cyflwyno.

Atodiad 1 – Rhestr o'r cyrff yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod cam cyn archwilio gan y cyhoedd y CDLL:

Yn unol â rheoliadau 14 a 15 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, ymgynghorwyd â'r cyrff canlynol:

<b>Sefydliad</b>
Plaid Lafur Aberconwy a Gorllewin Clwyd
Cyngor Tref Abergele
Advisory Council for the Education of Romany and other Travellers
Age Cymru
Avison Young
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
AXIS
Preswylwyr Lôn Gefn Bangor
Cyngor Tref Bae Colwyn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyngor Cymuned Bro Garmon
C L A Wales
Cynllunio Cadnant Cyf
CADW
Meddygfa Cadwgan
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Carter Jonas LLP
Cartrefi Conwy
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
CBSC
CEMEX UK Operations Ltd
Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys
Coleg Llandrillo
Siambr Fasnach Bae Colwyn
Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol
Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain
Grŵp Mynediad Conwy
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
Prosiect Llais Mawr y Gymuned Conwy
Siambr Fasnach Conwy
Ffederasiwn Busnesau Bach
Cyngor Tref Conwy
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Cymdeithas y Tirfeddianwyr
Cymdeithas y Tirfeddianwyr Cymru
Swyddfa Ystâd y Goron



Cwmpas
Cylch
Cyngor Cymuned Eglwysbach
Cyngor Cymuned Henryd
Cyngor Cymuned Llangernyw
Cyngor Cymuned Llansannan
Cyngor Cymuned Llysfaen
Cyngor Tref Bodelwyddan
Cyngor Tref Llanfairfechan
DeafBlind Cymru
Deloitte Real Estate
Polisi Cynllunio - Cyngor Sir Ddinbych
Comisiwn Dylunio Cymru
Anabledd Cymru
Cyngor Cymuned Dolgarrog
Dŵr Cymru
Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Undeb Amaethwyr Cymru
Meysydd Chwarae Cymru
Fisher German
Cyngor Sir y Fflint
Friends, Families and Travellers
Go North Wales
Gordon Kenyon (Kenyon & Company)
Grŵp Cynefin
Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd
Cyngor Gwynedd
Gypsy Traveller Advocacy Cymru
Hafal
Home Builders Federation Ltd
Liberty Properties
Cyngor Cymuned Llanddoged a Maenan
Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd-y-foel
Cymdeithas Hanes Llandudno a Bae Colwyn
Cymdeithas Lletygarwch Llandudno
Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Cymuned Llanfairtalhaearn
Cyngor Cymuned Llanfihangel Glyn Myfyr
Cyngor Cymuned Llangwm
Cyngor Tref Llanrwst
Maddox Planning
Mencap Cymru
Menter Iaith Conwy
Mesmac
Mind Cymru

Mineral Products Association Ltd
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Mostyn Estates Limited
National Farmers Union Cymru
National Gas Transmission
Grid Cenedlaethol
Cyfoeth Naturiol Cymru
Nexus Planning
Asiantaeth Cefnfyrrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Tai Gogledd Cymru
Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Mersi a Dyfrdwy
Heddlu Gogledd Cymru
Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
Cyngor Twristiaeth Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Owen Devenport Ltd
P L Planning
Cyngor Tref Penmaenmawr
Pennaf
Cyngor Cymuned Pentrefoelas
Plaid Cymru
Cymorth Cynllunio Cymru
Planware Limited
Pure Residential and Commercial Ltd
Richard Baddeley and Company
RSPB
Npower Renewables
Shelter Cymru
Chwaraeon Cymru
Tai Eryri
Grŵp Preswylwyr Llanrhos Road & Marine Terrace
Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Cyswllt Sipsiwn
The Planning Consultancy
Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru
Romani Cultural & Arts Company
Ymddiriedolaeth y Theatrau
The Traveller Movement
Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
Teithio Ymlaen
Cyngor Cymuned Trefriw
UKiP
Urban Intelligence
Vision in Wales (Cyngor Cymru i'r Deillion)
Croeso Cymru
Wales & West Utilities Limited

Wales and West Housing
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Wales Tourists Online
Ceidwadwyr Cymru
Llywodraeth Cymru
Llafur Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Siambwr Fasnach Gogledd Cymru a Gorllewin Swydd Gaer
Adran Gynllunio CBS Wrecsam
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ysgol Bryn Eliau

## Atodiad 2 - Hierarchaeth Llywodraethu'r CDLIN

<b>Strwythur Llywodraethu'r CDLI Newydd</b>				
<b>Haen a Grŵp</b>	<b>Aelodaeth</b>	<b>Cadeirydd</b>	<b>Is-gadeirydd</b>	<b>Cylch Gorchwyl</b>
<p><b>Haen 1: Grŵp Sicrwydd Ansawdd</b> Mae hyn yn cynnwys y cyfarwyddwr strategol, penaethiaid gwasanaeth, yr adran gyfreithiol a deiliad y portffolio. Bydd y grŵp hwn yn cytuno ar gymeradwyaeth derfynol ar asesiad cyfreithiol y cynllun/polisi/tir/gweithredu. Maent yn ystyried argymhellion y Grŵp Cynllunio Strategol (Haen 2)</p>	<p>Cyfarwyddwr strategol, Penaethiaid gwasanaeth, yr Adran Gyfreithiol a deiliad y portffolio. I'w drafod ymhellach wrth ddrafftio'r Cylch Gorchwyl.</p>	<p>I'w gadarnhau</p>	<p>I'w gadarnhau</p>	<p>I'w gytuno</p>
<p><b>Haen 2: Grŵp Cynllunio Strategol:</b> Mae hyn yn cynnwys grŵp cytbwys o Gynghorwyr fel y'u henwebir gan y Grwpiau Arweiniol. Bydd Penaethiaid Gwasanaeth hefyd yn ffurfio'r grŵp lle bo angen ac yn amodol ar y drafodaeth polisi/tir. Mae'r grŵp hwn yn ystyried yr argymhellion 'yn seiliedig ar bynciau' sy'n cael eu rheoli trwy'r Gweithgorau (Haen 3) isod. Mae gan y Grŵp Cynllunio Strategol ddwy swyddogaeth fel a ganlyn:</p> <p>a) Goruchwyllo adolygiad y CDLIN</p> <p>b) Prosiectau Cynllun Strategol eraill (h.y. Ardreth Seilwaith Cymunedol, Cynllun Datblygu Strategol, materion cynllunio y Cyd-bwyllgor Corfforedig, CCAau, Cynlluniau Lleoedd, Briffiau Datblygu, galluogi safleoedd, tystiolaeth, monitro, uwch-gynllunio, ac ati.</p>	<p>Y Cynghorydd Emily Owen, Aelod Cabinet Tai a Rheoleiddio Y Cynghorydd Austin Roberts Y Cynghorydd Andrew Wood Y Cynghorydd Cheryl Carlisle Y Cynghorydd Louise Emery Y Cynghorydd David Jones Y Cynghorydd Ifor Lloyd Y Cynghorydd Kay Redhead Y Cynghorydd Austin Roberts Y Cynghorydd Susan Shotter Y Cynghorydd Doleman</p>	<p>Y Cynghorydd Ifor Lloyd</p>	<p>Y Cynghorydd Austin Roberts</p>	<p>Cylch gorchwyl drafft wedi'i baratoi ac yn amodol ar gytundeb terfynol.</p>
<p><b>Haen 1: Cynllunio Strategol/Gweithgorau CDLIN:</b> Mae'r rhain yn cynnwys nifer fawr o weithgorau sy'n seiliedig ar bynciau ac sy'n berthnasol i gyflawni materion cynhyrchu a chynllunio strategol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'r rhain ar waith ar hyn o bryd ac wedi bod ers 2020, ond maent yn parhau i dyfu wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd fynd rhagddo. Ar hyn o bryd mae 18 o weithgorau ar waith, sydd i gyd yn adrodd i'r Grŵp Cynllunio Strategol ar bolisiau drafft/dyraniadau defnydd tir, tystiolaeth, ac ati. Maent yn cwmpasu pob mater cynllunio defnydd tir – tai, safleoedd strategol, yr economi, twristiaeth, manwerthu, yr amgylchedd naturiol, yr amgylchedd hanesyddol a diwylliannol, manau agored, trafniadaeth, mwynau, gwastraff, creu lleoedd, cynlluniau lleoedd, canol trefi, addysg, iechyd, ac ati.</p>	<p>Deiliaid Portffolio a Swyddogion Mewnol/Allanol (yn seiliedig ar bynciau)</p>	<p>Yn gyffredinol, yn cael eu cadeirio gan y tîm Polisi Cynllunio. Fodd bynnag, mae gan rai Gweithgorau gadeiryddion penodol.</p>	<p>Yn gyffredinol, yn cael eu cadeirio gan y tîm Polisi Cynllunio. Fodd bynnag, mae gan rai Gweithgorau is-gadeiryddion penodol.</p>	<p>Cylch gorchwyl wedi'i gytuno ar gyfer pob gweithgor.</p>

# Atodiad 3 – Tudalennau gwe yn manylu ar yr ymgynghoriad cyn archwilio gan y cyhoedd a'r Strategaeth a Ffefrir

## Cam 4 - Cyfranogiad cyn cyflwyno i'w archwilio gan y cyhoedd

Cawsom ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y prif faterion sy'n wynebu Conwy, gan gynnwys tai, swyddi a thwristiaeth rhwng 14 Rhagfyr, 2018 a 25 Ionawr, 2019

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 14 Rhagfyr, 2018 a 25 Ionawr, 2019.

Dyma'r ddau bapur yr ymgynghorwyd arnynt fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN):

- [Papur Ymgynghori 1](#) (PDF, 1.25Mb) - Mae hwn yn amlinellu'r **materion blaenoriaeth** sy'n wynebu Conwy ac mae'n awgrymu **gweledigaeth** a chyfres o **amcanion** ar gyfer y CDLIN.
- [Papur Ymgynghori 2](#) (PDF, 8.04Mb) - Mae hwn yn amlinellu'r **lefel twf strategol** (faint o dai fydd eu hangen a nifer y swyddi y bydd y CDLI yn darparu ar eu cyfer), yr **hierarchaeth aneddiadau** (sut y caiff yr aneddiadau eu hasesu o ran cyfleusterau a gwasanaethau, maint a phoblogaeth) a'r **dyraniad gofodol** (lle y byddwn yn rhoi lefel cytunedig o dai a swyddi.)

Rydym wedi casglu'r sylfaen dystiolaeth bresennol ac wedi rhoi [cyfres o Bapurau Testun at ei gilydd, gellir eu gweld yma.](#)

- [Fersiwn Grynodedb](#) (PDF, 917Kb)

Rydym wedi cynhyrchu fideo crynodeb sy'n esbonio'r broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.



[Trawsgrifiad Fideo](#) (PDF, 21Kb)

- [Cam 1 - Adroddiad Adolygu](#)
- [Cam 2 - Cytundeb Cyflawni](#)
- [Cam 3 - Safleoedd Ymgeisiol](#)
- [Cam 5 – Strategaeth a Ffefrir](#)

### Canlyniadau'r ymgynghoriad

Daeth cyfanswm o 124 o sylwadau i law ar y ddwy ddogfen ymgynghori. Gellir eu gweld ar y [system ymgynghori](#) neu yn y dogfennau isod.

[Papur Ymgynghori 1 - Adroddiad Sylwadau](#)

[Papur Ymgynghori 2 - Adroddiad Sylwadau](#)

Gwerthuso'r dudalen

## Cam 5 – Strategaeth a Ffefrir

Y Strategaeth a Ffefrir yw'r cyhoeddiad ffurfiol cyntaf yn y broses o baratoi CDLI. Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn darparu fframwaith strategol ar gyfer y polisiâu manylach, y cynigion a'r dyraniadau datblygu yn y CDLIN.

Rydym wedi cynhyrchu fideo crynodeb sy'n esbonio'r broses o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.



[Trawsgrifiad Fideo](#) (PDF, 81Kb)

[Crynodeb o'r strategaeth a ffefrir](#) (PDF)

Rydym ni wedi llunio dogfen Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLIN Conwy. Rydym wedi nodi ein gweledigaeth, y materion a'r amcanion. Rydym wedi nodi'r lefel dwf a ffefrir o ran tai a swyddi hefyd, a lle dylid eu lleoli.

Fe edrychom ni ar yr holl [dystiolaeth](#) pan ysgrifennom ni'r Strategaeth a Ffefrir.

[Strategaeth a Ffefrir](#) (PDF)

Fe gynhalion ni ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir rhwng 29 Gorffennaf, 2019 a 20 Medi, 2019.

Byddwn yn edrych ar y sylwadau a wnaed ar y Strategaeth a Ffefrir ac yn eu hystyried wrth i ni ysgrifennu'r Cynllun Adneuol.

Gallwch weld yr holl sylwadau a dderbyniwyd i'r Strategaeth a Ffefrir drwy'r system ymgynghori neu yn yr adroddiad sylwadau.

[System Ymgynghori](#)

[Adroddiad Sylwadau](#) (Ffeil PDF)

[Cyfarwyddiadau'r System Ymgynghori](#) (PDF)

- [Cam 1 - Adroddiad Adolygu](#)
- [Cam 2 - Cytundeb Cyflawni](#)
- [Cam 3 - Safleoedd Ymgeisiol](#)
- [Cam 4 - Cyfranogiad Cyn Adneuo](#)

Gwerthuso'r dudalen

**Atodiad 4 – Adroddiad Sylwadau ar Safleoedd Ymgeisiol** (gweler atodiad ar wahân ar y wefan)

**Atodiad 5 – Adroddiad Sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir** (gweler atodiad ar wahân ar y wefan)

# Atodiad 6 – Tudalennau gwe yn manylu ar y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd i helpu i lunio polisiâu'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd

## Hoffem glywed gennych chi!

### Hoffem glywed gennych chi!

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn dymuno cynnwys safleoedd yn yr ardaloedd canlynol yn y Cynllun Datblygu Lleol nesaf. Bydd y cynllun hwn yn sail i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar y safle yn y dyfodol.

Hoffem wahodd preswylwyr a chynrychiolwyr cymunedol i ymuno â ni yn y digwyddiadau lleol i drafod pob safle.

Cynhelir dau ddigwyddiad ar gyfer pob safle, digwyddiad ar-lein a gweithdy wyneb yn wyneb. I gael rhagor o wybodaeth ac er mwyn archebu eich lle, cliciwch ar y dolenni isod.

#### Llanrwst

Digwyddiad Ar-lein: Dydd Iau, 9 Tachwedd, 10am-11.30am.

Gweithdy: Nos Iau, 16 Tachwedd, 5.30pm-7.30pm yng Nglasdir.

#### Llanddulas

Digwyddiad Ar-lein: Dydd Mercher, 15 Tachwedd, 10am-11.30am.

Gweithdy: Nos Fercher, 22 Tachwedd, 5.30pm-7.30pm yn Ysgol Llanddulas.

Gweithdy: \*Nos Iau, 23 Tachwedd 5.30pm-7.30pm, Neuadd Bentref Llysfaen. \*digwyddiad ychwanegol

#### Llanfairfechan

Digwyddiad Ar-lein: Dydd Llun, 20 Tachwedd, 10am-11.30am.

Gweithdy: Nos Iau, 7 Rhagfyr 2023, 5.30pm-7.30pm yn Neuadd Gymunedol Llanfairfechan.

#### Hen Golwyn

Digwyddiad Ar-lein: Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2024, 10am-11.30am.

Gweithdy: Nos Fercher, 10 Ionawr 2024, 5.30pm – 7.30pm, Eglwys Festival - wedi'i archebu'n llawn.

Gweithdy: \*Dydd Llun, 22 Ionawr 2024, 4pm-6pm, yn Lolfa Conwy, Parc Eirias. (\*digwyddiad ychwanegol)

Gweithdy: \*Nos Llun, 22 Ionawr 2024, 6pm-8pm, yn Lolfa Conwy, Parc Eirias. (\*digwyddiad ychwanegol)

#### Llanrhos

Digwyddiad Ar-lein: Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2024, 10am-11.30am.

Gweithdy: \*Nos Fawrth, 23 Ionawr 2024, 2.00pm-4.00pm, Hen Ysgol Llanrhos (\*digwyddiad ychwanegol)

Gweithdy: Nos Fawrth, 23 Ionawr 2024, 5.30pm-7.30pm, Hen Ysgol Llanrhos

Os na fyddwch yn gallu mynychu eich digwyddiad lleol, anfonwch eich sylwadau at [deb@planningaidwales.org.uk](mailto:deb@planningaidwales.org.uk) neu ffoniwch 02920 625004 erbyn **Dydd Gwener, 19 Ionawr 2024**.

#### **Beth i'w ddisgwyl**

Bydd y digwyddiad ar-lein a'r digwyddiadau wyneb yn wyneb yn cynnwys trafodaethau strwythuredig ynghylch barn y gymuned am y safle. Cynhelir y trafodaethau hyn am hyd cyfan yr amser a hysbysebir.

Bydd trafodaethau'n cynnwys pynciau megis cynllun a mynediad i'r safle, graddfa'r hyn sy'n cael ei gynnig a materion sy'n bwysig i'r gymuned.

Sylwch y bydd y digwyddiadau'n cael eu hwyluso gan Cymorth Cynllunio Cymru. Er mwyn annog sgwrs agored, ni fydd Swyddogion Conwy yn bresennol. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal digwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd ffurfiol ar y CDLI Newydd i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Bydd dyddiadau'r rhain yn cael eu rhyddhau ar ein gwefan.

Yn dilyn y digwyddiadau, bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn llunio crynodeb o'r holl adborth ac yn ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w ystyried.

Meddai'r Cynghorydd Chris Cater, Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLI): "Byddwn yn annog preswylwyr lleol i gymryd rhan, dysgu mwy a rhannu eu barn gyda ni am y cynigion hyn."

Wedi ei bostio ar 06/11/2023

Gwerthuso'r dudalen



Atodiad 7 – Adroddiad proses ar gyfer y digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus ar safleoedd allweddol (gweler atodiad ar wahân ar y wefan)

Atodiad 8 – Adroddiad ar y sylwadau o'r digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus ar safleoedd allweddol (gweler atodiad ar wahân ar y wefan)